



Mam-gu
Penrhiw
a'r

Barcud
coch
olaf

MALACHY DOYLE
lluniau gan Petra Brown

MAM-GU PENRHIW A'R BARCUD COCH OLAF (gweithgareddau dosbarth)

Malachy Doyle addasiad Elin Meek
Lluniau gan Petra Brown

1. Mynd o dan groen y stori

Oherwydd mai llyfr llun yw hwn, mae angen i'r plant fod yn ymwybodol o swyddogaethau gwahanol yr awdur a'r arlunydd. I ddechrau, wrth gwrs, darllen a mwynhau'r stori sydd yn bwysig, gan oedi i ganiatáu i'r plant wneud sylwadau ar y cymeriadau a'u dull gweithredu, a rhagfynegi'r hyn sydd yn debygol o ddigwydd nesaf. Wrth ail-ddarllen y stori gyda'ch gilydd, defnyddiwch 'swigod meddwl' i gofnodi'r hyn mae'r cymeriadau yn ei feddwl ar adegau gwahanol. Defnyddiwch 'swigod meddwl' i gofnodi pa beth arall y gallant ddweud o bosib. Gall y swigod gael eu torri allan o bapur o flaen llaw a'u storio er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol neu gellir eu laminadu a'u hail ddefnyddio. Mae *Mam-gu Penrhif* yn stori eithaf cymhleth oherwydd ceir ôl-fflachiau i'r gorffennol pell (pan oedd barcutiaid coch i'w gweld yn gyffredin ar strydoedd Llundain) a'r gorffennol mwy diweddar (pan oeddent wedi lleihau i un pâr magu'n unig). Efallai y byddai o gymorth i wahaniaethu rhwng amser 'pell, pell yn ôl', y gorffennol a gofir 'pan oedd mam-gu'n ifanc', a'r presennol sef 'heddiw'. Hwyrach y byddai'r plant yn hoffi dosbarthu rhai o'r penodau yn y stori drwy ddweud a ydynt yn ymwneud â 'pell, pell yn ôl', 'pan oedd mam-gu'n ifanc', neu 'heddiw'.

2. Hoff leoedd a hoff olygfeydd

Mae gan Lowri hoff le yn y byd, hoff olygfa a hoff stori. Mae digon o bosibiliadau yma i'r plant drafod beth yw eu hoff le a beth sydd orau ganddynt ei weld. Mae hyn yn cynnig ei hun i waith ffotograffig syml neu arlunwaith a byddai'n brosiect delfrydol ar gyfer y cyfrifiadur. Gyda chymorth, gall plant mewnfudo llun eu hoff le gyda thestun syml.

Fy hoff le yn y byd i gyd yw _____

Mae'n le arbennig oherwydd _____

Yn fy hoff le rydw i'n gallu gweld _____

3. Adrodd storïau

Hoff stori Lowri yw'r un y mae ei mam-gu wedi'i hadrodd wrthi dro ar ôl tro. Mae'n siŵr y bydd gan y plant yn eich dosbarth eu hoff storïau, rhai y byddant wrth eu bodd yn gwrando arnynt dro ar ôl tro. Gall prosiect ymestynnol ar adrodd storïau ganolbwyntio ar strwythuro ac adrodd storïau ar gyfer cynulleidfa, gan ddefnyddio iaith sydd yn briodol ar gyfer stori ac sydd yn cynnwys lefel foddhaol o fanylion. Un ffordd o gychwyn y prosiect o bosib yw bod yr athro neu'r arweinydd grŵp yn adrodd stori yn y person cyntaf (stori Mam-gu Penrhif efallai) – esgyrn sychion y stori'n unig - a chaniatáu i'r plant ofyn am fanylion ychwanegol. Pan fydd cwestiynau'r plant yn cael eu dadansoddi, bydd yn amlwg eu bod yn gofyn am fwy o fanylion ynghylch y meysydd a ganlyn:

PWY (y cymeriadau yn y stori: sut maent yn edrych, sut berson ydynt)

BLE (lleoliad y stori, pa fath o le ydoedd o ran golwg a theimlad)

BETH (beth yn union ddigwyddodd yn y stori, dilyniant y digwyddiadau)

PRYD (gwybodaeth am dreigl amser, e.e. 'drannoeth')

PAM a SUT (cymhellion 'cymeriadau' – pam roeddent wedi ymddwyn yn y modd y gwnaethant)

Llaw gwestiynau – mae dynodi bys i bob un o'r meysydd hyn yn ffordd ddefnyddiol iawn o gofio ystod y cwestiynau y gall plant eu gofyn.

Llyfr lluniau yw *Mam-gu Penrhiw a'r Barcud Coch olaf*, nid stori lafar, er mai dyma'r hyn a adroddodd Mam-gu Penrhiw ei hun wrth Lowri. Caiff y cwestiynau **Pwy** a **Ble** eu hateb i ni yn y lluniau. Mae eisiau i'r plant fod yn ymwybodol bod yr awdur, Malachy Doyle yn wreiddiol, yn rhoi llais i Mam-gu, a bod Petra Brown yr arlunydd, yn dangos yr hyn roedd Mam-gu yn gallu ei weld (a'r hyn y mae nawr yn storio yn llygaid y cof).

Mae sawl ffordd y gallai'r prosiect ddatblygu: un ffordd o wneud hyn byddai gofyn i'r plant gyfsweld aelodau'r teulu ac yna ailadrodd eu storïau mewn cylch stori gyda'r plant eraill yn holi cwestiynau (gyda chymorth llaw gwestiynau) gan fynnu cymaint o fanylion â phosib; posibilrwydd arall yw dibynnu ar hanesion personol plant o fewn cylch stori; y trydydd posibilrwydd yw gwahodd aelodau o'r gymuned i ddod i'r ysgol ac ailadrodd stori o gyfnod eu plentyndod. Byddai'r gwahoddedigion, mewn gwirionedd, yn mabwysiadu rôl Mam-gu Penrhiw, a gellir ailadrodd eu storïau wedyn, eu recordio ar ddisg a'u hailysgrifennu gan y plant, naill ai fel unigolion neu ar sail grŵp/dosbarth. Byddai pum person o'u gwahodd i'r cylch stori ar wahanol achlysuron, yn darparu stori'r un i bum grŵp o blant.

4. Hanes llyfr

Mae'r ffordd o baratoi llyfr yn stori ynddi ei hun a dylid ei chysylltu, o ran y plant, gyda gweithgareddau ymarferol creu-llyfrau. Gellid cysylltu datblygu'r storïau cymunedol a amlinellir uchod gyda gwybodaeth am y modd y cafodd *Mam-gu Penrhiw* ei greu. Er nad dyma'r achos bob tro gyda llyfrau llun, ysgrifennodd Malachy Doyle y testun yn gyntaf – ac roedd eisoes wedi'i rannu i adrannau ar gyfer y tudalennau unigol. Gofynnwch i'r plant gyfrif sawl tudalen mewn gwirionedd sydd yn cynnwys darn o'r stori (5–29). Gofynnwch iddynt pa beth arall mae'r llyfr yn ei gynnwys? Ai stori yw'r cyfan?

Gofynnwch i'r plant edrych ar amrywiaeth o lyfrau llun i weld ble mae'r stori'n dechrau – bydd llawer, ond nid y cyfan o bell ffordd, yn dechrau ar ochr dde'r dudalen. Bydd tudalen deitl bob amser yn dod o flaen y stori, ceir tudalen gydnabyddiaeth bob amser (sydd fel arfer yn cynnwys cyflwyniad) ac weithiau bydd dalennau clawr (*endpapers*) sef tudalennau addurnedig yn cael eu cynnwys ar ddechrau a diwedd llyfr. Bydd presenoldeb dalennau clawr yn dibynnu ar hyd stori a faint o le sydd ar ôl ar gyfer addurno. Ar brydiau ceir tudalen a fydd yn cynnwys deunydd arall, er enghraifft gwybodaeth ffeithiol. (Mewn gwirionedd dim ond mewn llyfr clawr caled y ceir dalennau clawr oherwydd maent yn cael eu defnyddio i bontio rhwng y clawr a'r tudalennau oddi mewn.)

Nid yw'n hawdd dod o hyd i'r arlunydd iawn bob tro. Nid yw pob arlunydd yn addas i bob llyfr. I ddangos hyn i'r plant, chwaraewch y gêm 'dod o hyd i'r llun'. Bydd hyn yn helpu'r drafodaeth sydd i ddilyn. Gofynnwch i'r plant ddarganfod y lluniau sydd yn:

- ☆ dangos delwedd fanwl o farcud coch neu farcutiaid;
- ☆ dangos y cariad rhwng Mam-gu Penrhiw a Lowri;
- ☆ dangos y barcutiaid coch yn hedfan yn y mynyddoedd;
- ☆ dangos y bachgen yn syrthio allan o'r goeden.

Roedd yn rhaid i'r cyhoeddwr chwilio ymhobman i gael arlunydd ar gyfer *Mam-gu Penrhiw a'r Barcud coch olaf*. Roedd yn rhaid cael rhywun a fyddai'n gallu dangos symud, arlunio tirluniau a bywyd gwyllt yn fanwl gywir a hefyd dangos y berthynas rhwng cymeriadau. Gofynnwch i'r plant pam fod yr holl sgiliau hyn yn bwysig. Arweiniwch nhw at y lluniau a ddewiswyd ganddynt yn y gêm 'dod o hyd i'r llun'. Cytunodd Petra Brown, sydd yn arbenigo mewn arlunio tirluniau, i wneud y lluniau ac awgrymodd y cyhoeddwr yr hyn a allai gael eu cynnwys ymhob llun yn seiliedig ar y darnau stori roedd Malachy Doyle wedi'u hysgrifennu. Gofynnodd Petra gwestiynau ynghylch pryd y digwyddodd y stori fel y gallai benderfynu pa fath o 'olwg' i roi i Mam-gu Penrhiw a'i bwthyn. Pa fath o fam-gu ydyw? Pa fath o gartref sydd ganddi? A ydyw'n debyg i fam-gu'r plant?

Roedd yn rhaid i Petra benderfynu pa fath o liwiau i'w defnyddio. Gofynnwch i'r plant ddedol yr ystod lliwiau a ddewisodd i ddarlunio'r stori (a adnabyddir yn dechnegol fel palet lliw). Gwnewch siart lliw mawr:

GWYN
MELYN
COCH
PORFFOR
GLAS
GWYRDD
BROWN

Trowch drwy'r tudalennau ac ewch ati i gyfrif y gwahanol liwiau a ddefnyddiwyd. Bydd hyn yn rhoi rhyw syniad i'r plant ynghylch palet lliw Petra. Bydd yn rhaid iddynt benderfynu ynghylch lliw pan fyddant yn creu eu llyfrau eu hunain.

5. Bwrdd stori

Fesul grŵp, lluniwch fwrdd stori manwl gyda'r plant ar gyfer eu storïau 'Mam-gu Penrhiw' eu hunain, gan ddangos yr hyn sydd yn mynd i ddigwydd (gan gynnwys pa lun) sydd yn mynd i ymddangos ar bob tudalen. (Gallai hwn fod yn llyfr 8, 16 neu 32 tudalen yn dibynnu ar allu'r plant.) Bydd yn rhaid iddynt gynllunio ar gyfer llyfr go iawn gyda dalennau clawr, tudalen deitl a thudalen gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflwyniad. Os yw'n briodol, anogwch y plant i gynnwys tudalen wybodaeth. Dylid pwysleisio mai cynllun yn unig yw hwn ac felly **nid oes yn rhaid** iddynt baratoi'r lluniau mewn gwirionedd ar hyn o bryd, dim ond penderfynu beth maent yn mynd i ddangos.

6. Chwilio am Wybodaeth

Sicrhewch bod y plant yn ymwybodol o bwysigrwydd darparu gwybodaeth fanwl gywir os ydych yn ysgrifennu llyfr. Ceir gwybodaeth yn y stori ac ar ddiwedd y llyfr. O ble daeth yr wybodaeth yma? Pwysleiswch sut y mae'n rhaid i awduron ymchwilio eu ffeithiau'n ofalus, gan gyfeirio at lyfrau ac awdurdodau megis y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) i sicrhau eu bod yn gywir. Mae gwefan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, sef <http://www.rspb.org.uk> yn cynnwys adran blant ardderchog, ond byddai'n rhaid i oedolyn edrych arni'n gyntaf. Gwefan gwybodaeth y gellir ei chyrru'n uniongyrchol gan blant blwyddyn 2 yw safle Infant Explorer Sebastian Swan <http://www.sebastianwan.org.uk>

7. Canolfan ymwelwyr

Yn ddelfrydol, yn ogystal â darllen y stori, dylid ymweld â gwarchodfa natur neu orsaf fwydo barcutiaid coch, megis y rhai yn Gigrin (Rhaeadr), Bwlch Nant yr Arian (Aberystwyth), Llangadog a Thregaron. Bydd hyn yn galluogi'r plant i allu dirnad adar yn y gwyllt go iawn. Wedi'r ymweliad, bydd llawer o ddatblygiadau posibl; dull gweithredol iawn o bwysleisio'r ffaith bod bywyd gwyllt o'n cwmpas ymhobman yw sefydlu canolfan ymwelwyr yn y dosbarth, yn cynnwys mapiau, llwybrau anodedig, canllawiau gwylwyr adar a gwybodaeth am adar yn seiliedig ar amgylchedd lleol yr ysgol. (Gall hyn fod yn rhan o fenter ysgol gyfan i wneud yr amgylchedd yn fwy cyfeillgar i adar.) Dylai'r plant gael profiad uniongyrchol weithredol o'r amgylchedd a dylent gael cyfle i wyllo adar, cynnal bocsys adar a bwydo. Dylent gael ystod o brofiadau yn uniongyrchol, gan gynnwys arsylwi, defnyddio ysbieddrych a gwirio arsylwadau yn erbyn canllawiau syml i wylwyr adar. Yn y ganolfan ymwelwyr, dylai llyfrau, taflenni, a deunydd a lwythwyd i lawr o'r rhyngwyd gael eu hategu gan waith y plant eu hunain. Dylid datblygu fframwaith syml ar gyfer llunio taflen adnabod ar gyfer rhywogaethau adar gwahanol.

Gellir neilltuo swyddogaethau yn y ganolfan ymwelwyr a fydd mor syml neu mor gymhleth ag y gall y dosbarth (neu'r athro) ymdopi â hwy. Gall swyddfa a siop (ac o bosib ardal caffi) ymestyn pleser ac ymwneud y plant, a byddant hefyd yn cynnig amrywiaeth o swyddogaethau yn ogystal â phrofiad o drafod arian. Dylid cael ffôn a dyddiadur digwyddiadau yn y swyddfa er mwyn cymryd archebion. Gall 'arbenigwyr' roi sgursiau yn y ganolfan. Dylai arwyddion fod yn ddwyieithog a dylai'r plant gyfarfod a chyfarfau eu hymwelwyr yn ddwyieithog. Dylid gwahodd rhieni ac ymwelwyr eraill i'r agoriad swyddogol a dylid eu hannog i ymweld (yn ôl doethineb yr athro).

Dim ond ar ôl ymweld â chanolfan ymwelwyr go iawn y gellir datblygu canolfan yn yr ysgol. Gyda chymorth lluniau, gellir gwneud rhestr o'r holl bethau sydd yn cynnig profiad da i'r ymwelydd.

8. Testunau eraill

Bydd gweithgareddau chwarae rôl o'r math hyn yn tueddu cynhyrchu angen naturiol am ystod o destunau. Rhai posibiliadau'n unig yw'r rhain ar gyfer gweithgareddau sydd yn seiliedig ar destun *Mam-gu Penrhiw a'r Barcud Coch olaf*. Cofiwch bob tro y byddwch yn gofyn i blant greu testun, bydd yn **rhaid** iddynt gael cyfleoedd i astudio enghraifft o fywyd go iawn, wedi'i symleiddio os bydd angen, yn y fath fodd fel eu bod yn cyfarwyddo â phrif nodweddion strwythur ac iaith.

- ☆ Llythyr ymddiheuro. Mae'r bachgen yn ysgrifennu at Mam-gu Penrhiw, i ymddiheuro am geisio dwyn wyau'r barcud coch.
- ☆ Llythyr diolch i'r ganolfan bywyd gwyllt.
- ☆ Llythyron at yr awdur a'r arlunydd.
- ☆ Hysbysebion ar gyfer canolfan ymwelwyr y dosbarth.
- ☆ Adroddiad papur newydd yn seiliedig ar achub y barcud coch.
- ☆ Rheolau ar gyfer cadw'r wlad yn ddiogel.
- ☆ Gwybodaeth cylch bywyd am y barcud coch neu adar eraill.

BWRDD STORI AR GYFER MAM-GU PENRHIW A'R BARCUD COCH OLAF

1	2	3	4	5	6	7	
Dalen clawr	Dalen clawr	Tudalen deitl	Cydnabydd-iaethau a chyflwyniadau	Bwthyn Mam-gu Penrhiw yng nghanol y bryniau	Mam-gu a Lowri'n cael te	Yr hen ddyddiau yn Llundain	
8	9	10	11	12	13	14	
Lowri gyda'r adar. Dynion â gynnu	Mam-gu gyda'r adar	Mam-gu yn dweud popeth wrth Lowri	am y nyth	Dad yn synnu o glywed geiriau'r arbenigwr	Lowri yn cadw llygad ar y barcutiaid	Mam-gu yn adrodd hoff ran Lowri o'r stori	Sara yn rhedeg i'r coed
16	17	18	19	20	21	22	23
Sara'n gweld y rhaff	yr adar a'r bachgen	Y bachgen yn syrthio o'r goeden		Sara yn rhoi pryd o dafod i'r bachgen	Y bachgen yn gadael		Sara yn dweud y cyfan wrth ei thad
24	25	26	27	28	29	30	31
Mam-gu yn parhau i adrodd y stori	Barcutiaid coch yn y nyth gyda'r cywion	Stori Mam-gu yn dod	i ben	Lowri a'i ffrindiau	yn mwynhau edrych ar y barcutiaid coch	Tudalen wybodaeth	Dalen clawr
32							
Dalen clawr							

